Cymorth Cynllunio Cymru
Planning Aid Wales

Cylchlythyr Cymorth Cynllunio Cymru

Tachwedd 2009

Swyddfa newydd Cymorth Cynllunio Cymru

Mae pencadlys Cymorth Cynllunio Cymru yn symud. O Dachwedd 25ain 2009, gallwch gysylltu â ni yn y cyfeiriad canlynol:

Y Llawr Cyntaf
174 Heol yr Eglwys Newydd
Y Mynydd Bychan
Caerdydd CF14 3PN

Bydd rhif ffôn llinell gymorth Cymorth Cynllunio Cymru yn newid i:

02920 625000

Bydd rhifau ffôn y staff canlynol hefyd yn newid fel a ganlyn:

James Davies, Cynlluniwr a Rheolwr Achosion: 02920 625009

Kay Sharman, Gweinyddydd a Swyddog Ariannol (Ymholiadau Cyffredinol): 02920 625006

Bydd cyfeiriad y wefan a holl gyfeiriadau ebost y mudiad yn aros fel y maent.

Yn y rhifyn yma….

- Ymgynghoriad: Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar ynni a phorthladdoedd
- Cynhadledd flynyddol Cymorth Cynllunio yng Nghaerdydd
- Swyddog Hyfforddi newydd
- Tîm Cymorth Cynllunio Cymru'n chwilio am her
- Astudiaeth achos
- Digwyddiadau
- Cysylltu â ni

Ymgynghoriad: Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar ynni a phorthladdoedd

Yn ôl i'r brig

Er bod cyfrifoldeb dros y system gynllunio yng Nghymru yn gyffredinol wedi ei datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, mae cynllunio ar gyfer seilwaith ynni a phorthladdoedd a ystyrir yn 'arwyddocaol yn genedlaethol' yn parhau i fod yn gyfrifoldeb San Steffan.

Cyflwynodd Deddf Gynllunio 2008 system newydd i ddelio gyda cheisiadau i adeiladu cyfleusterau seilwaith arwyddocaol yn genedlaethol yng Nghymru a Lloegr. Bydd corff annibynnol newydd, y **Comisiwn Cynllunio Seilwaith (CCS)** yn archwilio ac yn penderfynu ar geisiadau ar gyfer prif ddatblygiadau seilwaith newydd. Bydd y CCS yn seilio'i benderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio unigol ar y **Datganiadau Polisi Cenedlaethol (DPC)** perthnasol. Os bydd y datblygiad arfaethedig yn cyflawni gofynion y Datganiad Polisi Cenedlaethol perthnasol, ac os bydd y datblygwr wedi cynnal rhaglen ymgynghori gyda chymunedau lleol cyn gwneud y cais, yna mae'n debygol o gael caniatâd.

Os ydych am ddylanwadu ar benderfyniadau ar geisiadau yn y dyfodol ar gyfer datblygiadau megis ffermydd gwynt mawr, datblygiadau porthladdoedd neu o bosibl orsaf ynni niwclear yn eich ardal, mae'n bwysig eich bod yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar y Datganiadau Polisi Cenedlaethol perthnasol.

Mae ymgynghoriadau ar agor ar hyn o bryd ar y dogfennau canlynol:

- Polisi Trosfwaol Seilwaith Ynni Cenedlaethol
- Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy
- Gorsafoedd Ynni Tanwydd Ffosil
- Seilwaith Cyflenwi Nwy, Pibau Nwy ac Olew
- Rhwydweithiau Trydan
- Gorsafoedd Ynni Niwclear
- Porthladdoedd

Y dyddiadau cau yw Chwefror 15fed 2010 ar gyfer DPC porthladdoedd a Chwefror 22ain 2010 ar gyfer pob DPC yn ymwneud ag ynni.

Ceir mwy o wybodaeth ar Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol a chysylltiadau i'r dogfennau ymgynghori ar ***www.nationalpolicystatements.org.uk***.

Cynhadledd flynyddol Cymorth Cynllunio yng Nghaerdydd

Yn ôl i'r brig

Bydd Cymorth Cynllunio Cymru yn croesawu'r Gynhadledd Cymorth Cynllunio flynyddol ar gyfer y DU gyfan y flwyddyn nesaf. Fe'i cynhelir ar Ddydd Iau - Dydd Gwener, Ebrill 29ain-30ain yng ngwesty'r Park Inn, Caerdydd.

Bydd y gynhadledd yn dod ag ystod o bobl o bob rhan o'r DU at ei gilydd mewn amgylchedd gyfathrebol fydd yn eu galluogi i ddysgu oddi wrth ei gilydd. Yn ogystal â staff a gwirfoddolwyr Cymorth Cynllunio Cymru bydd cynrychiolwyr o grwpiau cymunedol a gwirfoddol, cynghorau tref a chymuned ac eraill sydd wedi bod, neu yn cymryd rhan yn gyfredol yn y system gynllunio. Y syniad yw fod cymorth cynllunio ond yn gwneud synnwyr pan mae'n cefnogi pobl o fewn y gymuned a'u cynorthwyo i wireddu eu gweledigaethau a phrosiectau ymarferol.

Felly rydym yn chwilio am enghreifftiau go iawn mewn prosiectau, cyrff neu grwpiau sydd wedi gwneud, neu yn gwneud, i bethau ddigwydd yn eu cymunedau, y gallem eu harddangos neu eu trafod yn y gynhadledd. Nid yw o bwys os yw'ch grŵp wedi cael help gan Gymorth Cynllunio, yn credu y gallent elwa o gael cefnogaeth gynllunio arbenigol neu eu bod wedi llwyddo ar ei ben ei hun: os ydych chi wedi delio gyda, neu yn delio, gyda mater cynllunio mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, hoffem glywed gennych.

Os ydych yn meddwl y byddai'ch grŵp neu eich prosiect chi yn gweddu, cysylltwch â Marika am sgwrs anffurfiol ar 01286 882 834 neu ***marika@cymorthcynlluniocymru.org.uk***.

Swyddog Hyfforddi newydd

Yn ôl i'r brig

Bydd tîm Cymorth Cynllunio Cymru'n tyfu o fis Rhagfyr ymlaen. Bydd Maria Allen yn ymuno â ni fel ein Swyddog Hyfforddi cyntaf un. Diben y swydd yw cydlynu gwasanaethau hyfforddi Cymorth Cynllunio Cymru a'u datblygu ymhellach.

Felly os ydych am logi hyfforddwr cynllunio am sesiwn gyda'r hwyr, os hoffech inni ddylunio diwrnod hyfforddi'n arbennig ar eich cyfer chi a'ch grŵp neu fod gennych syniad am brosiect meithrin gallu ar y cyd, bydd Maria yno i'ch helpu. Gellir cael gafael arni yn swyddfa Caerdydd i ddechrau.

Tîm Cymorth Cynllunio Cymru'n chwilio am her

Yn ôl i'r brig

Hydref diwethaf treuliodd tîm staff Cymorth Cynllunio Cymru ddydd llawn egni yn y goedwig yn adeiladu cylch coed ac ardal dysgu am fywyd gwyllt ym Mharc Gwledig Porthceri. Roeddem yn chwilio am her a fyddai'n ein cymryd allan o'n rôl arferol ac hefyd yn helpu'r gymuned, ac yn wir fe ddaethom o hyd i hyn ym Mhorthceri.

Nawr rydym yn chwilio am brosiect cymunedol heriol arall i weithio arno ar ein dydd allan o'r swyddfa eleni. Os byddai'ch prosiect chi'n elwa o gael deg llaw egnïol i'ch cynorthwyo am ddiwrnod, cysylltwch â ni (manylion isod).

Astudiaeth Achos

Yn ôl i'r brig

Menyw fregus yn cael cadw ei ffens

Mae Mrs A. yn dioddef o sglerosis ymledol, yn gaeth i'w chartref ac yn byw ar ei phen ei hun. Ar ôl cael ei haflonyddu'n barhaol gan lanciau lleol am dros flwyddyn, trefnodd i ffens gael ei chodi o amgylch ei chartref i wneud iddi deimlo'n fwy diogel. Nid oedd Mrs A. yn ymwybodol bod yn rhaid cael caniatâd cynllunio i godi'r ffens, a chysylltodd â Chymorth Cynllunio Cymru i ofyn am gymorth i rwystro gweithredu gorfodaeth. Cynorthwyodd Cymorth Cynllunio Cymru Mrs A. i ymgeisio am ganiatâd cynllunio ôl-weithredol, a chyflwynodd ddatganiad llawn yn esbonio'i hangen arbennig am ffens. O ganlyniad, caniataodd yr awdurdod cynllunio lleol iddi gadw'r ffens cyhyd ag y bydd Mrs A. yn byw yn yr eiddo hwnnw.

Digwyddiadau

Yn ôl i'r brig

Os hoffech wybod mwy am unrhyw un o'r digwyddiadau a restrir, cysylltwch â ni (gweler isod).

7 Rhagfyr, Caerdydd
Digwyddiad ymgynghori ar y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar borthladdoedd. Gweler yr erthygl uchod am fanylion.

20 Ionawr 2010, lleoliad i'w gadarnhau
Digwyddiad ymgynghori ar y Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar ynni. Gweler yr erthygl uchod am fanylion.

29-30 Ebrill 2010, Caerdydd
Cynhadledd flynyddol Cymorth Cynllunio. Gweler yr erthygl uchod am fanylion.

Cysylltu â Chymorth Cynllunio Cymru

Gwefan: www.cymorthcynlluniocymru.org.uk

Llinell Gymorth: 02920 625 000

Ffôn y Brif Swyddfa: 02920 625 006

Ebost: post@cymorthcynlluniocymru.org.uk

Staff Cymorth Cynllunio Cymru

Elwyn Thomas, Prif Weithredwr
Ffôn: 01766 762 244
Ebost: elwyn@cymorthcynlluniocymru.org.uk

Marika Fusser, Gweithiwr Datblygu'r Gogledd a'r Canolbarth:
Ffôn: 01286 882 834
Ebost: marika@cymorthcynlluniocymru.org.uk

Maria Allen, Swyddog Hyfforddi
Ffôn: 02920 625 009
Ebost: maria@cymorthcynlluniocymru.org.uk

Cyfeiriad y Brif Swyddfa:
Lawr cyntaf
174 Heol yr Eglwys Newydd
Y Mynydd Bychan
Caerdydd CF14 3PN

James Davies, Cynlluniwr a Rheolwr Achosion:
Ebost: james@cymorthcynlluniocymru.org.uk
Ffôn: 02920 625 009

Kay Sharman, Gweinyddydd a Swyddog Ariannol:
Ffôn: 02920 625 006
Ebost: kay@cymorthcynlluniocymru.org.uk